# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Cynhadledd fideo drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2024

Amser: 09.01 - 09.20

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS<br>Llyr Gruffydd AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Llinos Madeley, Gweithdrefnau a Sgiliau Seneddol<br>Alun Davidson, Tîm Newid Cyfansoddiadol /Strategaeth Busnes Seneddol |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Heledd Fychan, roedd Llyr Gruffydd yn bresennol ar ei rhan.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn:

- Datganiad gan Weinidog yr Economi: Tata Steel (45 munud)
- ~~Datganiad gan Weinidog yr Economi: Economi Blaenau'r Cymoedd (30 munud)~~ *Gohiriwyd*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.45pm.

**Dydd Mercher**

Dywedodd y Trefnydd wrth y Rheolwyr Busnes nad yw'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn gallu ymateb i ddadl y Ceidwadwyr Cymreig ar gyllid llywodraeth leol gan y bydd yn teithio i gyfarfod rhyngweinidogol yn yr Alban. Bydd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip yn ymateb i'r ddadl yn ei lle.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 30 Ionawr 2024**

- Datganiad gan y Prif Weinidog ~~Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad~~: Adroddiad terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Papur gwyn ar gyfer Bil arfaethedig ar egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu amgylcheddol a thargedau bioamrywiaeth (30 munud)
- ~~Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) (Diwygio) 2024 (5 munud)~~ – *gohiriwyd tan 20 Chwefror*

**Dydd Mawrth 6 Chwefror 2024**

- Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024 (5 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 31 Ionawr 2024 –**

- Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog (5 munud)

**Dydd Mercher 21 Chwefror 2024 –**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Ymchwiliad i Lywodraethiant y DU a'r UE (45 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer: Sioned Williams (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

## 3.4 Cynigion Deddfwriaethol Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion arfaethedig ar gyfer dadl a chytunwyd i amserlennu'r cynnig canlynol ar 31 Ionawr:

**Mabon ap Gwynfor**

**NNDM8434**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil i sefydlu goruchwyliaeth strwythuredig o reolwyr y GIG, ar ffurf corff rheoleiddio.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) sefydlu corff rheoleiddio proffesiynol ar gyfer GIG Cymru i ddiffinio'r safonau proffesiynol a ddisgwylir gan reolwyr GIG Cymru a bod yn lle i droi ar gyfer y rhai sy'n teimlo nad yw'r safonau hynny wedi cael eu bodloni gan unrhyw reolwr unigol GIG Cymru, a byddai ganddo'r pŵer i rybuddio, cosbi neu dynnu unrhyw reolwr GIG Cymru oddi ar ei gofrestr a gynhelir;

b) diffinio beth yw rheolwr GIG Cymru a chynnal cofrestr o reolwyr GIG Cymru; ac

c) ei gwneud yn ofynnol i holl reolwyr y GIG fod wedi'u cofrestru gyda'r corff rheoleiddio proffesiynol.

## 4 Pwyllgorau

### 4.1 Llythyr gan Gyd-gadeiryddion Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru ynghylch slotiau cyfarfod

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gais gan Bwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru i gyfarfod ar 20 Chwefror, 19 Mawrth a dyddiau Mawrth dilynol pan fo angen, cyn cytuno ar slot parhaol ar ddyddiad i ddod.

## 5 Diwygio'r Senedd

### 5.1 Ystyried argymhellion i'r Pwyllgor Busnes sy'n deillio o adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Biliau Diwygio ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Business Committee considered the recommendations made to it by the Reform Bill Committee and agreed its response.

## 6 Y Rheolau Sefydlog

### 6.1 Trafod yr adroddiad drafft ar ddiwygio Rheolau Sefydlog: Adolygiad cyfyngedig o weithdrefnau Bil Cydgrynhoi

Trafododd y Pwyllgor Busnes yr adroddiad drafft sy'n cynnwys cynigion i ddiwygio Rheolau Sefydlog sy’n ymwneud â Biliau Cydgrynhoi sy'n deillio o'i adolygiad cyfyngedig o'r gweithdrefnau hynny a chytunodd arnynt. Cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno cynnig yn cynnig bod y Senedd yn cytuno ar y newidiadau arfaethedig i’w drafod ddydd Mercher 31 Ionawr.

# 7 Gwaith Gweithdrefnol

## 7.1 Gweithdrefnau ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan

Trafododd y Pwyllgor Busnes ymatebion a gafwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Fforwm y Cadeiryddion a'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad i gynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i rannu'r ymatebion a dderbyniwyd ac i roi cyfle i'r rhai sydd eisoes wedi darparu gwybodaeth i ddarparu rhagor o fyfyrdodau, cyn dychwelyd at y mater o wneud newidiadau i'r Rheolau Sefydlog mewn cyfarfod yn y dyfodol.